

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL
ORDER UNDER SECTION 21 OF THE TOWN POLICE CLAUSES ACT 1847
FOR THE PREVENTION OF OBSTRUCTION

On Sunday 8th November 2026, Between the hours of 10:30 and 12:00, the following streets will be thronged and liable for obstruction for the St Clears Remembrance Parade:

1. High Street (from St Mary's Church) to its junction with Pentre Road;
2. Pentre Road (to Evans Pharmacy)

There will be no alternative route. Access will be maintained using traffic control.

The CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL pursuant to powers conferred by section 21 of the town police clauses act 1847 DOES HEREBY ORDER AND DIRECT that for the purpose of preventing obstruction on the above mentioned roads, shall be closed to all vehicular traffic including pedal cycles between the hours indicated above on Sunday 8th November 2026 subject to emergency service vehicles being allowed access to the street without delay in the event of an emergency.

This order will not prevent any person from causing any vehicle to proceed or to wait on or in the said lengths of road referred to therein if the vehicle is being used for fire brigade purposes or an ambulance or a vehicle in the service of a police force in any such case being used in pursuance of statutory powers or duties.

Any person directed or permitted by a police constable in uniform to drive, ride or propel a vehicle or to cause or permit a vehicle to wait on or in the said lengths of road described in this Order during the said hours on the said days shall obey the direction of the said police constable, and of any other police constable in uniform, PCSO or other authorised person.

THE COMMON SEAL of **THE**)
CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL)
was hereunto affixed this)
27th day of October 2026 in the)
presence of:-)

Signed by:

Steven P Murphy

6947BF055CF64B2...



Steven P Murphy

20396

Head of Law, Governance and Civil Services

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847

AR GYFER ATAL RHWYSTR

Ddydd Sul 8 Tachwedd 2026, rhwng 10:30 a 12:00, bydd y strydoedd canlynol yn orlawn ac yn debygol o fod wedi'u rhwystro, ar gyfer Gorymdaith y Cofio Sanclêr.

1. Stryd Fawr (o Eglwys y Santes Fair) hyd at y gyffordd â Heol y Pentre;
2. Heol y Pentre (hyd at Fferyllfa Evans)

Ni fydd ffordd arall. Defnyddir mesurau rheoli traffig i ganiatáu mynediad.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y ffyrdd a enwyd uchod, y bydd y ffyrdd hynny'n cael eu cau i bob traffig cerbydau gan gynnwys beiciau pedal rhwng yr oriau a nodir uchod ddydd Sul 8 Tachwedd 2026 ar yr amod bod cerbydau'r gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Ni fydd y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio neu aros ar neu yn y darnau ffyrdd y cyfeirir atynt ynddo os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y gwasanaethau tân neu ambiwlans neu gerbyd yng ngwasanaeth yr heddlu mewn unrhyw achos o'r fath sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

Rhaid i unrhyw berson sy'n cael cyfarwyddyd neu ganiatâd gan heddwas yn ei lifrai, i deithio, reidio neu yrru cerbyd ymlaen neu achosi neu ganiatáu i gerbyd aros ar neu yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau dywededig ar y dyddiau dywededig ufuddhau i gyfarwyddiadau'r heddwas ac unrhyw heddwas arall yn ei lifrai, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson awdurdodedig arall.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN**)
CYNGOR SIR CAERFYRDDIN)
ar y ddogfen hon)
ar y 27^{ain} o Hydref 2026)
ym mhresenoldeb:-)



Signed by:

6947BF055CF64B2

Steven P Murphy

20396

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil